Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Adroddiad Interim ar Wasanaethau Mamolaeth

Chwefror 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol **www.cynulliadcymru.org**

I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8639
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: YPwyllgorCyfrifonCyhoeddus@cymru.gsi.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Adroddiad Interim ar Wasanaethau Mamolaeth

Chwefror 2010

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sicrhau bod gwariant Llywodraeth Cymru'n cael ei archwilio'n briodol ac yn drylwyr, a bod yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn glynu wrth y safonau uchaf posibl wrth reoli eu materion ariannol. Mae'n gwneud hyn fel bod pobl Cymru'n gallu teimlo'n hyderus bod eu harian yn cael ei wario'n synhwyrol ac yn dda.

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007 fel un o bwyllgorau'r Cynulliad. Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn enwedig Rheol Sefydlog 13. Mae'r rhain i'w cael yn www.cynulliadcymru.org.

Aelodau'r Pwyllgor

Aelod Pwyllgor	*Plaid*	*Etholaeth neu Ranbarth*
Jonathan Morgan (Cadeirydd)	Y Ceidwadwyr Cymreig	Gogledd Caerdydd
Lorraine Barrett	Llafur	De Caerdydd a Phenarth
Jeff Cuthbert	Llafur	Caerffili
Alun Davies	Llafur	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Michael German	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Dwyrain De Cymru
Irene James	Llafur	Islwyn
Bethan Jenkins	Plaid Cymru	Gorllewin De Cymru
Sandy Mewies	Llafur	Delyn
Nick Ramsay	Y Ceidwadwyr Cymreig	Mynwy
Janet Ryder	Plaid Cymru	Gogledd Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd **6**

Argymhellion y Pwyllgor **7**

1. Cyflwyniad **9**

2. Tystiolaeth y Swyddog Cyfrifyddu **11**

Cyflwyniad 11

Mae'r gwaith o gynllunio gwasanaethau mamolaeth yn cael ei danseilio gan ddiffyg gweledigaeth strategol gydlynol a gwybodaeth wael am gostau ac ansawdd gwasanaethau **11**

Strategaeth, targedau a blaenoriaeth gymharol 12

Cysondeb a gwybodaeth sy'n eglur 13

Pa offer sydd ar gael 13

Gwasanaethau newyddenedigol 14

Lefelau staffio a hyfforddiant 15

Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau o safon briodol ac mae nifer o fenywod yn fodlon â'u profiad, ond mae amrywiaeth annerbynniol mewn gwirionedd **17**

Boddhad defnyddwyr y gwasanaeth 17

Gofal cyn-enedigol 18

Cymorth yn ystod genedigaeth 19

Gofal ôl-enedigol 19

Ni chesglir gwybodaeth mewn modd cyson ac ni chaiff ei defnyddio'n effeithiol fel tystiolaeth ar gyfer gwella gwasanaethau **21**

Casglu data 21

Atborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau mamolaeth 22

Cynnydd yn nifer y digwyddiadau diogelwch a gofnodwyd 23

3. Casgliadau **25**

Ffigur 1 – Y meysydd y mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi nodi sydd angen gwneud mwy o waith arnynt..... 25

Tystion 27

Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig 28

Rhagair y Cadeirydd

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyflwyno adroddiad ar Wasanaethau Mamolaeth yng Nghymru, ac yn gyffredinol, gwelodd bod y mwyafrif o ferched yn fodlon â'r gwasanaethau a dderbyniwyd. Fodd bynnag, gwelodd hefyd bod mannau lle gellid gwella'r gwasanaeth hanfodol hwn.

Galwyd Llywodraeth Cymru gennym ni, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i ymddangos ger ein bron i gyfrif am y meysydd lle'r oedd lle i wella ac i geisio ei sicrhad y bydd gwelliannau.

Adroddiad interim yw hwn, sy'n seiliedig yn bennaf ar dystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Bwriadwn ail-edrych ar wasanaethau mamolaeth yn ddiweddarach eleni a disgwylir i Lywodraeth Cymru bryd hynny ddangos y cynnydd mae wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn, ynghyd â gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, yn gweithredu fel catalydd ar gyfer gwella gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru, a phan ail-edrychwn ar y mater yn ddiweddarach yn y flwyddyn gobeithiwn y bydd camau pendant wedi'u cymryd i sicrhau bod gwelliannau'n digwydd.

Argymhellion y Pwyllgor

Rhestrir argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru isod, yn y drefn y maent yn ymddangos ynddi yn yr adroddiad hwn. Ewch i dudalennau perthnasol yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion.

Argymhelliad 1: Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi manylion pellach i ni ynghylch sut y mae'n bwriadu rhoi argymhellion adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar waith, neu sut y mae eisoes wedi'u rhoi ar waith, a hynny ar unwaith. (Tudalen 26)

Argymhelliad 2: Yn unol ag argymhelliad cyntaf yr Archwilydd Cyffredinol, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi strategaeth glir ar gyfer darparu gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru erbyn diwedd 2010. Dylai'r strategaeth hon gynnwys y manylion a ganlyn:

- Sut y bydd Llywodraeth Cymru'n cwblhau'r gwelliannau a amlinellwyd i ni gan y Swyddog Cyfrifyddu
- Y targedau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u pennu a sut y mae'r rhain yn alinio ag ansawdd a chanlyniadau
- Sut y bydd Llywodraeth Cymru'n monitro perfformiad (Tudalen 26)

Argymhelliad 3: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, fel gofyniad sylfaenol, yn sicrhau bod yr offer a nodir yn y rhestr safonol y cyfeiriodd y Prif Swyddog Nyrsio ati ar gael ym mhob ward sydd angen yr offer o fewn y 12 mis nesaf. (Tudalen 26)

Argymhelliad 4: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi copi o'r fframwaith newyddenedigol i ni cyn gynted â phosibl. (Tudalen 26)

Argymhelliad 5: Rydym yn argymell bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhoi cyflwyniad ysgrifenedig mwy sylweddol i ni sy'n egluro'r rhesymau y tu ôl i'r data ar faint o bobl sy'n mynychu dosbarthiadau cynenedigol cyn gynted â phosibl. (Tudalen 26)

Argymhelliad 6: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso ei dull newydd o ymdrin â gofal ôl-enedigol i weld a yw'n

gwella profiadau defnyddwyr y gwasanaeth, ac a yw cynnydd yn nifer y staff wedi arwain at gynnydd mewn cyfraddau bwydo ar y fron. (Tudalen 26)

Argymhelliad 7: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod lefelau hyfforddi bydwragedd, clinigwyr a staff meddygol eraill yn cael eu cynnal a bod systemau'n cael eu sefydlu i osgoi diffyg staff yn y dyfodol. (Tudalen 26)

1. Cyflwyniad

1. Gosododd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr 'Archwilydd Cyffredinol') ei adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 19 Mehefin 2009[1], yn sgil gwaith maes a gynhaliwyd yn ystod 2007 a 2008.

2. Yn ei adroddiad, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y gwasanaethau mamolaeth yn addas ar y cyfan a bod y rhan fwyaf o fenywod yn fodlon â'r gofal mamolaeth yng Nghymru, er bod lleiafrif sylweddol yn teimlo na chawsant eu trin ag urddas a pharch nac â charedigrwydd a dealltwriaeth. Fodd bynnag, nododd rai mannau gwan hefyd yn y ddarpariaeth o wasanaethau mamolaeth a bod gwahaniaeth annerbynniol rhwng y gwasanaethau ledled Cymru[2].

3. Trafodwyd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol am y tro cyntaf ar 2 Gorffennaf 2009 a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y 'Gweinidog') i ofyn am fanylion sut y mae'n bwriadu ymateb i'r argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad a beth yw'r amserlen y bydd yn ei dilyn. Yn ei hateb, nododd y Gweinidog ei bod wedi gofyn i'w swyddogion sefydlu gweithgor i ystyried ac argymell gwelliannau i wasanaethau mamolaeth yng Nghymru, gan gynnwys ystyried argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol. Roedd y Gweinidog yn disgwyl i'r grŵp gyflwyno adroddiad ym mis Rhagfyr 2009.

4. Ar 15 Hydref 2009, trafodwyd ateb y Gweinidog a chytunwyd i alw ar y Swyddog Cyfrifyddu i egluro ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ymhellach.

5. Ymddangosodd Mr Paul Williams, y Swyddog Cyfrifyddu, o'n blaenau ar 19 Tachwedd 2009. Roedd Ms Rosemary Kennedy, y Prif

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Mamolaeth, 19 Mehefin 2009
[2] Ibid t.7

Swyddog Nyrsio, a Simon Dean, y Cyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio, yno i'w gynorthwyo. Mae'r adroddiad interim hwn wedi'i sylfaenu'n bennaf ar y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Swyddog Cyfrifyddu a'i gyd-weithwyr yn y cyfarfod hwnnw.

6. Mae'r adroddiad interim hwn yn cyfeirio at nifer o feysydd lle mae angen cymryd camau pellach i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau mamolaeth ledled Cymru. Rydym yn bwriadu dychwelyd i'r pwnc o wasanaethau mamolaeth yn ddiweddarach yn 2010, pan fyddwn yn asesu'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru o ran mynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn.

2. Tystiolaeth y Swyddog Cyfrifyddu

Cyflwyniad

7. Er bod ein gwaith ar wasanaethau mamolaeth yn seiliedig ar adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar wasanaethau mamolaeth, nid yw'r adroddiad interim hwn yn ceisio ailgreu'r adroddiad hwnnw. Mae'r is-benawdau a ddefnyddir yn y bennod hon yn adlewyrchu penawdau'r penodau a ddefnyddiwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad gwreiddiol ar wasanaethau mamolaeth. Defnyddiwyd y dull hwn i gynorthwyo'r broses o gysylltu'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni gyda'r materion a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad. Mae'r adroddiad interim hwn wedi'i seilio'n bennaf ar y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Swyddog Cyfrifyddu a'i gyd-weithwyr yn y cyfarfod hwnnw.

Mae'r gwaith o gynllunio gwasanaethau mamolaeth yn cael ei danseilio gan ddiffyg gweledigaeth strategol gydlynol a gwybodaeth wael am gostau ac ansawdd gwasanaethau

8. Yn rhan gyntaf ei adroddiad[3] ar wasanaethau mamolaeth, nododd yr Archwilydd Cyffredinol yr hyn a ganlyn:

- Er bod cryn dipyn o ganllawiau ar gael ar gynllunio gwasanaethau mamolaeth, nid oes strategaeth gyffredinol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru.
- Efallai bod y diffyg targedau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cenedlaethol wedi cyfrannu'n anfwriadol at y ffaith bod cyrff y GIG wedi rhoi blaenoriaeth eithaf isel i'r gwasanaethau hyn.
- Mae'r broses o gynllunio gwasanaethau mamolaeth wedi'i llesteirio o ganlyniad i'r ffaith bod diffyg gwybodaeth gywir am gostau ac ansawdd y gwasanaethau.
- Mae'r offer sydd ar gael i gynorthwyo menywod wrth iddynt roi genedigaeth yn "brin iawn" mewn rhai ardaloedd.
- Nid yw'r capasiti a'r galw am wasanaethau cynenedigol yn cyfateb i'w gilydd.

[3] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Mamolaeth, 19 Mehefin 2009 t.17-25

- Mae nifer isel o staff a lefel isel o hyfforddiant mewn sawl maes, ac mae hyn yn peri pryder.

Strategaeth, targedau a blaenoriaeth gymharol

9. Yn ei dystiolaeth lafar ar 19 Tachwedd 2009, nododd y Swyddog Cyfrifyddu nad yw'n credu bod blaenoriaeth isel yn cael ei roi i wasanaethau mamolaeth o fewn y GIG yng Nghymru[4]. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud i roi blaenoriaeth i'r gwasanaeth hwn. Roedd ei eglurhad ynglŷn â'r meysydd roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn pryderu yn eu cylch yn canolbwyntio gan mwyaf ar "fannau gwan" y system a ddefnyddiwyd yn flaenorol wrth drefnu'r GIG yng Nghymru, a oedd yn seiliedig ar y farchnad[5].

10. Dywedodd y Swyddog Cyfrifyddu ei fod yn datblygu system gynllunio i fynd i'r afael â'r mannau gwan ymddangosiadol hyn, a fydd yn cael ei gyfnerthu gan system rheoli perfformiad i sicrhau bod ymagwedd mwy cydlynol yn y dyfodol. O ran targedau cenedlaethol, dywedodd y Swyddog Cyfrifyddu wrthym eu bod yn cael eu diwygio, a bod angen dewis targedau nad ydynt o reidrwydd yn cael eu rheoli gan rifau ac sydd wedi'u halinio lawer mwy ag ansawdd a chanlyniadau.[6]

11. Rydym yn cytuno â'r ymagwedd hwn mewn egwyddor. Fodd bynnag, nid yw'n dangos beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod mwy o flaenoriaeth yn cael ei roi i wasanaethau mamolaeth. Nid oedd ymrwymiad y Swyddog Cyfrifyddu i ddatblygu system gynllunio yn cynnwys manylion sut y byddai argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ynglyn â gweithredu strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau mamolaeth yn cael eu datblygu.

12. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol bod angen dogfen strategaeth gynhwysfawr[7]. Credwn y dylid rhoi blaenoriaeth i lunio strategaeth. Byddem yn croesawu eglurhad am y targedau a osodir a sut y maent yn alinio ag ansawdd a chanlyniadau wrth i argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer datblygu fframwaith atebolrwydd clir[8] gael ei weithredu.

---

[4] Cofnod y Trafodion, 19 Tachwedd 2009, paragraff 121
[5] Cofnod y Trafodion 19 Tachwedd 2009, paragraffau 121-125
[6] Ibid, paragraff 128
[7] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Mamolaeth, 19 Mehefin 2009 t.10
[8] Ibid

Cysondeb a gwybodaeth sy'n eglur

13. Yn rhan gyntaf ei adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn mynegi pryder ynghylch cysondeb ac eglurder y wybodaeth sydd ar gael am gostau gwasanaethau mamolaeth. Unwaith eto, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n credu mai strwythur blaenorol y GIG sydd wrth wraidd y pryderon hyn:

> "The system really did not promote the need to collect much of this information nationally [...]"[9]

14. Fodd bynnag, cydnabu: "[...] with the new system we will obviously have to attend to that", a dywedodd:

> "We now need to improve the definition of data so that when we are talking about a cost for a particular activity we make sure that everything is attributed properly."[10]

15. Rydym yn siomedig nad yw costau darparu'r gwasanaeth iechyd hanfodol hwn wedi cael eu priodoli'n gywir, ac na chasglwyd data yn flaenorol. Ni wnaeth y Swyddog Cyfrifyddu egluro pam fod strwythur blaenorol y GIG wedi rhwystro'r broses o gasglu data ac o briodoli costau. O ganlyniad, rydym yn dod i'r casgliad na roddwyd blaenoriaeth ddigonol i gasglu'r wybodaeth hon bryd hynny.

16. Mae'n rhy gynnar i farnu a fydd y strwythur newydd yn mynd i'r afael â'n pryderon ynglŷn â phriodoli costau ar gyfer gwasanaethau mamolaeth, oherwydd y gwaith sydd angen ei wneud i gyflwyno ymagwedd gyffredin tuag at ddiffinio data a sut y cofnodir y wybodaeth. Fodd bynnag, rydym wedi ein calonogi bod y Swyddog Cyfrifyddu'n gobeithio y bydd wedi safoni costau gwasanaethau ledled Cymru o fewn blwyddyn.[11] Rydym yn edrych ymlaen at gael cadarnhâd ynglŷn â hyn gan y Swyddog Cyfrifyddu yn ddiweddarach yn 2010 pan fyddwn yn dychwelyd i edrych ar wasanaethau mamolaeth.

Pa offer sydd ar gael

17. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol, er ei bod yn ymddangos bod digon o welyau ar gael ar gyfer gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru ac mai ychydig o broblemau sydd o ran bod theatrau ar gael, dim ond nifer gyfyngedig o offer i gynorthwyo gyda geni babanod

[9] Ibid, paragraff 132
[10] Ibid, paragraff 133
[11] Ibid, paragraffau 136-7

sydd ar gael, ac roedd ganddo bryderon ynghylch oedran yr offer hwnnw.[12]

18. Cadarnhaodd y Swyddog Cyfrifyddu nad oes ffordd o fonitro'r offer sydd ar gael yn ganolog ac mai'r byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol amdano.[13].

19. Dywedodd y Prif Swyddog Nyrsio wrthym y bydd gan bob ward a ddefnyddir i eni babanod restr safonol o'r offer sydd ar gael[14]. Dywedodd wrthym hefyd bod hwn yn fater proffesiynol yn ogystal â bod yn fater cyfalaf, a bod angen ystyried sut mae'r offer yn cael ei ddefnyddio.

20. O gofio bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi canfod bod darpariaeth gyfyngedig o offer mewn rhai ardaloedd, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, fel gofyniad sylfaenol, sicrhau bod yr offer a nodwyd yn y rhestr safonol y cyfeiriodd y Prif Swyddog Nyrsio ati ar gael ym mhob ward sydd ei angen o fewn y 12 mis nesaf.

Gwasanaethau newyddenedigol

21. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol bod 10 o'r 13 o ymddiriedolaethau sydd ag unedau newyddenedigol wedi cau i famau am un neu fwy o ddyddiau yn ystod y cyfnod o chwe mis hyd at fis Mawrth 2007.[15] O ganlyniad i hynny, bu'n rhaid i rai babanod a oedd yn agored i niwed gael gofal cryn bellter o'u cartrefi a chael eu gwahanu oddi wrth eu mamau. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd bod y trefniadau ar gyfer cludo babanod newyddenedig yn anfoddhaol ac mai cyfyngedig oedd y cynnydd ar gytuno ar fframwaith strategol ar gyfer gweithredu gwasanaethau newyddenedigol.

22. Rhoddodd y Swyddog Cyfrifyddu fanylion i ni ynglŷn â model trosglwyddo sy'n cynnwys tair canolfan ar gyfer de Cymru, ac un canolfan yng ngogledd Cymru, a fydd yn cynorthwyo'r broses o leihau nifer y wardiau sy'n cau. Roedd yn cydnabod bod angen buddsoddi mewn ymgynghorwyr, nyrsys arbenigol a'r gwasanaeth ambiwlans ar gyfer hyn a bod llawer o waith i'w wneud i weithredu'r model hwn"[16].

---

[12] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Mamolaeth, 19 Mehefin 2009, t.18-19
[13] Cofnod y Trafodion, 19 Tachwedd 2009, paragraffau 143 a 145
[14] Ibid, paragraff 146
[15] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Mamolaeth, 19 Mehefin 2009. t.19
[16] Cofnod y Trafodion, 19 Tachwedd 2009, paragraffau 150-51

23. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi buddsoddiad o £4 miliwn dros ddwy flynedd sy'n cynnwys cynigion ar gyfer system gludiant wedi'i neilltuo, system wybodaeth glinigol, datblygu rhwydweithiau clinigol a lansio gwasanaethau newyddenedigol[17]. Dywedodd y Swyddog Cyfrifyddu wrthym fod y Gweinidog yn ystyried cynigion i gael rhwydwaith glinigol a reolir a gwasanaeth cludiant wedi'i neilltuo, a'i fod yn disgwyl i'r Gweinidog wneud penderfyniad yn eu cylch cyn hir.

24. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio bod fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol wedi cael ei lunio ac y gallai ddarparu copi ohono, os gwneir cais amdano.[18].

25. Rydym yn croesawu'r buddsoddiad o £4 miliwn mewn gwasanaethau newyddenedigol, a'r ffaith bod fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau newyddeneidgol wedi cael ei lunio. Rydym yn dymuno cael copi o'r strategaeth fel y gallwn asesu'r cynnydd yn erbyn y fframwaith hwn pan fyddwn yn dychwelyd i drafod gwasanaethau mamolaeth yn ddiweddarach yn 2010.

Lefelau staffio a hyfforddiant

26. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi canfod bod y lefelau staffio yng Nghymru'n uwch yn gyffredinol na'r rheiny yn Lloegr, ond bod gan rai cyrff y GIG gymarebau sy'n llai na'r rhai a argymhellir. Datganodd Coleg Brenhinol y Bydwragedd ym mis Mawrth 2009 bod angen cynnydd o 8 y cant yn nifer y swyddi bydwragedd.[19]

27. Dywedodd y Prif Swyddog Nyrsio wrthym:

> "Every new LHB has either recruited completely to meet the shortfall identified or is in the process of doing so with the next outturn of midwifery students, with the exception of Hywel Dda Local Health Board"[20],

a bod hynny wedi digwydd ers i waith maes yr Archwilydd Cyffredinol gael ei gynnal.

28. Rhoddodd y Swyddog Cyfrifyddu wybodaeth bellach am y cynnydd roedd rhai byrddau iechyd lleol wedi'i wneud. Mae wedi nodi mai

---

[17] Datganiad i'r Wasg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, *Derbyn cyngor arbenigwyr ar wella gofal i fabanod newydd eu geni*, 8 Rhagfyr 2009
[18] Ibid, paragraff 156
[19] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Mamolaeth, Mehefin 2009, t.20-21
[20] Cofnod y Trafodion, 19 Tachwedd 2009, paragraff 176

mater recriwtio yw'r ffaith bod diffyg swyddi a gwnaeth ein sicrhau bod yr arian ar gael yn y system ar gyfer y swyddi hyn.

29. Yn ei adroddiad, cyfeiriodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd at yr angen i ddarparwyr wahaniaethu rhwng yr amser y mae meddygon ymgynghorol yn ei dreulio ar obstetreg a gynaecoleg, gan fod rhai o gyrff y GIG yn methu sicrhau bod y nifer a argymhellir o feddygon ymgynghorol ar gael mewn ystafelloedd geni[21]. Cydnabu'r Swyddog Cyfrifyddu bod bylchau yn y ddarpariaeth yng Nghymru a bod angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod darparwyr yn gwahaniaethau rhwng y meysydd clinigol hyn. Nododd hefyd mai'r darparwyr ddylai fod yn nodi'r gwahaniaeth hwn.

30. Nododd y Swyddog Cyfrifyddu ymhellach ei fod yn awr yn gallu monitro cydbwysedd yr amser a gaiff ei wario gan feddygon ymgynghorol i sicrhau bod nifer ddigonol ohonynt ar gael.

31. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol bod lefelau isel o hyfforddiant i staff yn rhai o gyrff y GIG. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Nyrsio yr hyn a ganlyn: "As far as midwives are concerned, all local health boards now have a mandatory in-house cold-call training programme". Cadarnhaodd hefyd bod cofnodion hyfforddi'n cael eu cadw a bod y rhain ar gael i graffu arnynt. Fe'u cedwir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Nododd y Swyddog Cyfrifyddu y gellir monitro'r lefelau hyfforddiant yn genedlaethol.

32. Rydym yn croesawu'r cynnydd a wnaed o ran sicrhau bod y lefelau staffio ledled Cymru o safon dderbyniol; bod cydbwysedd yr amser y mae meddygon ymgynghorol yn ei dreulio ar obstetreg a gynaecoleg yn cael ei fonitro; a bod gan y byrddau iechyd lleol drefniadau hyfforddi ar waith. Fodd bynnag, dywedodd y Swyddog Cyfrifyddu bod angen gwneud mwy o waith. Mae'n amlwg hefyd bod llawer o'r gwaith a wnaed eisoes yn angenrheidiol i wneud iawn am y diffyg mawr mewn darpariaeth oedd yn bodoli cynt. Rydym yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd pellach a wnaed pan fyddwn yn dychwelyd i'r mater hwn yn ddiweddarach yn 2010.

[21] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Mamolaeth, 19 Mehefin 2009, t. 22-23

Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau o safon briodol ac mae nifer o fenywod yn fodlon â'u profiad, ond mae amrywiaeth annerbynniol mewn gwirionedd

33. Yn ail ran ei adroddiad, ystyriodd yr Archwilydd Cyffredinol i ba raddau y mae gwasanaethau mamolaeth yn darparu gofal diogel ac effeithlon.[22] Canfu arolwg ymysg mamau newydd bod y rhan fwyaf o fenywod yn fodlon â'r gwasanaethau a gawsant a bod gofal cynenedigol yn dilyn y canllawiau arfer da yn gyffredinol[23].

34. Fodd bynnag, nododd yr arolwg yr hyn a ganlyn hefyd:

- Mae lleiafrif sylweddol o fenywod yn teimlo na chawsant eu trin â pharch ac urddas nac â charedigrwydd a dealltwriaeth
- Gellir gwella agweddau ar wasanaethau cynenedigol
- Mae lleiafrif sylweddol o fenywod yn teimlo eu bod wedi cael eu gadael ar eu pennau eu hunain ac yn bryderus yn fuan wedi iddynt roi genedigaeth
- Gofal ôl-enedigol yw'r cam lleiaf boddhaol i fenywod

Boddhad defnyddwyr y gwasanaeth

35. Mae lefelau boddhad mamau yn uwch ac yn fwy cyson yng Nghymru nag y maent yn Lloegr. Fodd bynnag, teimlai lleiafrif sylweddol o fenywod na chawsant eu trin â pharch ac urddas nac â charedigrwydd a dealltwriaeth.[24]

36. Nododd y Swyddog Cyfrifyddu bod hyn yn anfaddeuol o dan unrhyw amgylchiadau, a chydnabyddodd bod angen gwneud llawer mwy i wella agweddau a bod problemau o ran hyfforddiant[25].

37. Cyflwynodd y Prif Swyddog Nyrsio fanylion yr ymgyrch urddas a pharch a gyflwynwyd ledled Cymru. O ran y rhaglen hyfforddiant blynyddol, dywedodd:

---

[22] Ibid, t.26-47
[23] Ibid
[24] Ibid
[25] Cofnod y Trafodion, 19 Tachwedd 2009, paragraffau 198-200

> "[...] there will be a specific module on dignity and respect when treating women, on interpreting women's needs and treating them with an acceptable level of respect and kindness all the time"[26]

38. Rydym yn cefnogi safbwynt y Swyddog Cyfrifyddu a'r ymagwedd a gymerwyd gan y Prif Swyddog Nyrsio mewn perthynas â sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi'n gywir. Rydym yn edrych ymlaen at adolygu hyn tua diwedd 2010 pan fyddwn yn dychwelyd i edrych ar wasanaethau mamolaeth.

Gofal cyn-enedigol

39. Roedd tua 35 y cant o'r menywod a lenwodd holiadur fel rhan o waith yr Archwilydd Cyffredinol yn teimlo na roddwyd eglurhad digonol iddynt bob tro ac nad oeddynt yn chwarae rhan lawn yn y penderfyniadau a wnaed ynglŷn â'u gofal cyn-enedigol[27]. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd nad oes cytundeb Cymru gyfan eto ar gyllido'r prawf sgrinio diweddaraf ar gyfer canfod syndrom Down.

40. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cofnod mamolaeth drwy Gymru gyfan a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth i fenywod, a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n eu trin, drwy gydol yr amser y maent yn defnyddio'r gwasanaethau mamolaeth. Nododd y Swyddog Cyfrifyddu y byddai'r dull newydd hwn yn helpu i wella'r ddeialog rhwng y cleifion a'r pobl broffesiynol[28]. Dywedodd y Prif Swyddog Nyrsio y bydd y cofnod yn sicrhau, drwy'r holl broses, bod cydsyniad y fam yn amlwg a'i bod yn cymryd rhan ym mhob agwedd ar ei gofal[29].

41. Yn ogystal â'r pryderon a amlinellwyd ym mharagraff 39 uchod, cyfeiriodd yr Archwilydd Cyffredinol at yr anghyfartaledd o ran nifer y menywod sy'n mynychu dosbarthiadau cynenedigol. Roedd wedi canfod, er enghraifft, bod 24 y cant o fenwyod yng Ngwent yn mynychu dosbarthiadau, tra bo 75 y cant o fenywod yng Ngheredigion a gogledd-orllewin Cymru yn eu mynychu[30].

42. Unwaith eto, roedd y Swyddog Cyfrifyddu yn cydnabod bod llawer mwy o waith i'w wneud[31] a dywedodd ei fod yn annog byrddau iechyd

---

[26] Ibid, paragraff 201
[27] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Mamolaeth, 19 Mehefin 2009, t.27
[28] Cofnod y Trafodion, 19 Tachwedd 2009, paragraff 203
[29] Ibid, paragraff 204
[30] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Mamolaeth, 19 Mehefin 2009, t.30
[31] Cofnod y Trafodion, 19 Tachwedd 2009, paragraff 212

lleol i wneud eu gwasanaethau yn fwy hygyrch, ee drwy gynnal clinig ar fore dydd Sadwrn.

43. Rydym yn credu y gallai cyflwyno cofnod mamolaeth drwy Gymru gyfan gynorthwyo'r broses o sicrhau bod mamau yn cael mwy o wybodaeth, er ei bod yn rhy gynnar i werthuso llwyddiant y dull hwn o weithio.

44. Nid oedd y Swyddog Cyfrifyddu mewn sefyllfa i roi eglurhad am yr anghyfartaledd yn y data sy'n ymwneud â nifer y menywod sy'n mynychu dosbarthiadau cynenedigol pan oedd yn rhoi tystiolaeth i ni oherwydd ei fod eisiau gwybod mwy am y data. Rydym yn gofyn iddo ystyried y data a rhoi ateb ysgrifenedig mwy sylweddol i ni i egluro'r anghyfartaledd hwn cyn gynted â phosibl.

Cymorth yn ystod genedigaeth

45. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi canfod bod rhwng 10 y cant a 24 y cant o fenywod yng Nghymru wedi dweud eu bod wedi cael eu gadael ar eu pennau eu hunain ac yn bryderus yn ystod yr enedigaeth. Roedd wedi canfod hefyd bod cyfraddau genedigaethau normal yn isel a lefelau cymharol uchel o ymyriadau yng Nghymru[32].

46. Wrth ymateb i hyn, dywedodd y Swyddog Cyfrifyddu mai nid lefelau staffio gwael sydd ar fai. Yn hytrach, cyfeiriodd at y pwysau trwm ar unedau bydwragedd, sut y mae adeiladau wedi cael eu cynllunio, a hyfforddiant staff fel ffactorau posibl sy'n cyfrannu at hyn[33].

47. Roedd yr angen i wella hyfforddiant wedi codi'n aml yn ystod sesiwn dystiolaeth y Swyddog Cyfrifyddu. Rydym yn gwneud argymhelliad mewn perthynas â hyfforddiant yn rhan olaf yr adroddiad hwn.

Gofal ôl-enedigol

48. Roedd yr arolwg ymysg mamau newydd hefyd wedi canfod mai gofal ôl-enedigol oedd y cam gofal lleiaf boddhaol i fenywod a bod traean o'r menywod yn anhapus gyda safon y cymorth ar gyfer bwydo

[32] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Mamolaeth, 19 Mehefin 2009, t.35-43
[33] Cofnod y Trafodion, 19 Tachwedd 2009, paragraffau 218-9

eu babanod[34]. Mae'r Prif Swyddog Nyrsio'n credu bod hyn oherwydd bod lefelau isel o staff pan gynhaliwyd yr archwiliad:

> "I will be honest: the audit was carried out a time when we did not have the right staffing numbers. We know that the first reinforcement of the number of midwives on the labour ward came from the postnatal wards, which meant that there was a reduction in that experience level and the number of staff on the postnatal wards who could talk through the anxieties that mothers had about going home, how they would cope with the baby and so on. We should be seeing a complete change now that the Birthrate Plus figures have gone up."[35]

49. Mae cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu hefyd. Dywedodd y Prif Swyddog Nyrsio:

> "There have also been good moves to support this, because many of the units now employ nursery nurses to support mothers to get to grips with feeding, managing and bathing the baby and so on. Many also employ midwifery support care workers, who will take some of the non-direct patient care from the midwives and allow them to spend more quality time with the mothers. That will be a major factor in their satisfaction."[36]

50. Rydym yn fodlon y dylai'r cynnydd yn nifer y staff, a'r cymorth ychwanegol a amlinellwyd gan y Prif Swyddog Nyrsio, wella bodlonrwydd mamau yn ystod y cam ôl-enedigol. Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried gwerthuso'r dull newydd hwn i weld a yw wedi gwella profiad mamau mewn gofal ôl-enedigol mewn gwirionedd.

51. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi canfod hefyd bod amrywiaeth eang rhwng yr ymddiriedolaethau mewn perthynas â faint o weithiau y mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ymweld â mamau newydd. Roedd wedi canfod bod hyd at chwarter y menywod mewn rhai ymddiriedolaethau am gael mwy o ymweliadau ar ôl iddynt roi genedigaeth[37]. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd bod lefelau gweddol wael o fwydo ar y fron yng Nghymru[38].

---

[34] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Mamolaeth, 19 Mehefin 2009 t.43
[35] Cofnod y Trafodion, 19 Tachwedd 2009, paragraff 234
[36] Ibid
[37] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Mamolaeth, 19 Mehefin 2009, t.45-46
[38] Ibid, t.43

52. Roedd gennym bryderon bod cysylltiad posibl rhwng yr amser y mae gweithwyr gofal iechyd mamolaeth yn ei dreulio gyda mamau newydd a chyfraddau bwydo ar y fron. Rydym yn nodi'r gwelliant mewn lefelau staffio a gyflwynwyd i ni gan Lywodraeth Cymru a byddwn yn edrych i weld a fydd hyn yn effeithio ar nifer y mamau sy'n bwydo ar y fron pan ddychwelwn i drafod gwasanaethau mamolaeth yn ddiweddarach yn 2010.

Ni chesglir gwybodaeth mewn modd cyson ac ni chaiff ei defnyddio'n effeithiol fel tystiolaeth ar gyfer gwella gwasanaethau

53. Mae trydedd rhan adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn pwysleisio bod diffyg gwybodaeth gyson ar gael i ategu'r broses o wella gwasanaethau mamolaeth[39].

54. Mae'n nodi'r hyn a ganlyn:

- Mae diffygion sylweddol o ran monitro perfformiad
- Nid yw'r gwasanaethau mamolaeth yn gwneud y defnydd gorau o fforymau a phwyllgorau sy'n bodoli, ac nid oes gan rai gynrychiolwyr sy'n ddefnyddwyr
- Yn y rhan fwyaf o'r ymddiriedolaethau, mae nifer y damweiniau diogelwch a gofnodwyd yn cynyddu

Casglu data

55. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod anghysondeb o ran y data perfformiad oherwydd nad oes set data cyffredinol. Mae hefyd yn nodi bod bylchau sylweddol mewn gwybodaeth yn atal y gallu i ddadansoddi canlyniadau mamolaeth ac ôl-enedigol[40].

56. Fel ymateb i'r canfyddiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiad gwraidd a brig o'r broses o gasglu data. Dywedodd y Swyddog Cyfrifyddu:

> "We are undertaking a root-and-branch review asking ourselves what information we need in order to be able to monitor and plan for the future; how we should collect it; and whether we

[39] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Mamolaeth, 19 Mehefin 2009, t.48
[40] Ibid, t.49

> have the right definitions and the right technology to collect the information"[41]

57. Dywedodd y Swyddog Cyfrifyddu wrthym y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau erbyn gwanwyn 2010 ac y bydd y system mewn lle o fewn blwyddyn. Pwysleisiodd hefyd bod clinigwr yn cynnal yr adolygiad hwn a'i fod eisiau i'r casgliad o ddata fod yn seiliedig ar ystyriaethau clinigol yn hytrach na'i fod yn cael ei reoli o bersbectif rheolwr[42].

58. Mae'n rhy gynnar i asesu a fydd y dull hwn yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol. Rydym yn edrych ymlaen gyda diddordeb i weld casgliadau'r adolygiad y cyfeiriodd y Swyddog Cyfrifyddu ato, ac rydym yn bwriadu dychwelyd i'r pwnc hwn yn ddiweddarach yn 2010.

Atborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau mamolaeth

59. Mae pob ymddiriedolaeth yn nodi bod ganddynt fforymau wardiau genedigaeth wedi'u sefydlu a'u bod yn cymryd rhan mewn pwyllgorau cyswllt gwasanaethau mamolaeth rhanbarthol. Roedd yr Archwilydd Cenedlaethol wedi canfod nad yw'r fforymau a'r pwyllgorau hyn yn cael eu defnyddio i'r eithaf[43]. Roedd wedi canfod hefyd nad oedd defnyddwyr y gwasanaeth yn gallu ymgysylltu'n llwyddiannus a bod rhai ymddiriedolaethau wedi nodi nad oedd cynrychiolydd sy'n ddefnyddiwr ar y pwyllgorau cyswllt gwasanaethau mamolaeth y maent hwy yn rhan ohonynt.

60. Mewn ymateb i gwestiynau, nododd y Swyddog Cyfrifyddu bod mwy o waith i'w wneud a chyfaddefodd bod y gwasanaethau mamolaeth yn eithaf anghyson mewn perthynas â grwpiau defnyddwyr"[44]. Roedd y Prif Swyddog Nyrsio'n gresynu nad oedd y pwyllgorau cyswllt gwasanaethau mamolaeth wedi bod mor effeithiol a defnyddiol ag yr oeddent wedi'i obeithio[45]. Mae'n gweithio i ddatblygu dull o ymgysylltu â defnyddwyr yn well a chynigiodd yr eglurhad a ganlyn am yr anawsterau sy'n bodoli o ran ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth:

> "It is a really difficult issue because unless we get a really good satisfaction tool [...] mothers who have just given birth will not

[41] Cofnod y Trafodion, 19 Tachwedd 2009, paragraff 248
[42] Ibid, paragraff 248
[43] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Mamolaeth, 19 Mehefin 2009, t.50
[44] Cofnod y Trafodion, 19 Tachwedd 2009, paragraff 253
[45] Ibid, paragraff 254

> respond because they do not have the time or inclination to spend the time in groups. Representative groups often are not as representative as they think they are, so it is a real challenge for us."[46]

61. Fel rhan o greu'r saith bwrdd iechyd lleol newydd, bydd pob bwrdd yn sefydlu fforwm defnyddwyr lleol fel rhan o'i drefniadaeth. Mae'r Prif Swyddog Nyrsio yn rhagweld y bydd hyn yn gwella'r broses o gasglu gwybodaeth am ddefnyddwyr ac yn rhoi cyfle i fyrddau wrando arnynt[47].

62. Rydym yn credu bod casglu barn defnyddwyr yn rhan hanfodol o wella a datblygu gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru. Rydym wedi ein calonogi gan y dull y mae'r Prif Swyddog Nyrsio yn ei ddefnyddio ac rydym yn edrych ymlaen at weld gwelliant amlwg yn lefel ymgysylltiad defnyddwyr pan y byddwn yn trafod hyn eto yn ddiweddarach yn 2010.

Cynnydd yn nifer y digwyddiadau diogelwch a gofnodwyd

63. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol bod cynnydd yn nifer y digwyddiadau diogelwch a gofnodwyd yn y rhan fwyaf o ymddiriedolaethau. Roedd yn cydnabod y gallai hyn fod yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith bod mwy o ddigwyddiadau'n cael eu cofnodi[48].

64. Cynigiodd y Swyddog Cyfrifyddu rywfaint o eglurhad drwy egluro nad yw nifer y ceisiadau i weld yn cynyddu'n sylweddol er bod nifer y digwyddiadau a gofnodwyd wedi cynyddu[49]. Mae'n priodoli'r cynnydd mewn cofnodi i'r gwaith sy'n cael ei gynnal i annog pobl i gofnodi digwyddiadau a'r ffaith bod mwy o dryloywder. Dywedodd y Swyddog Cyfrifyddu:

> "I think that it is a much healthier environment than we may have had in the past, when incidents were seen negatively or were not properly reported. Staff now have the confidence to know that they can report incidents and that a constructive approach will be taken because we need to improve patient safety."[50]

---

[46] Ibid
[47] Ibid
[48] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Mamolaeth, 19 Mehefin 2009, t.51
[49] Cofnod y Trafodion, 19 Tachwedd 2009, paragraff 258
[50] Ibid 259

65. Rydym yn falch i nodi'r cynnydd mewn cofnodi digwyddiadau, ac rydym yn edrych ymlaen at weld tystiolaeth o'r newid diwylliannol a amlinellwyd gan y Swyddog Cyfrifyddu pan fyddwn yn trafod gwasanaethau mamolaeth unwaith eto yn ddiweddarach yn 2010.

3. Casgliadau

66. Yn ystod ein gwaith ar wasanaethau mamolaeth, rydym wedi gweld bod cyn ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn darparu gwasanaethau mamolaeth addas yn gyffredinol, sydd wedi arwain at brofiadau a chanlyniadau cadarnhaol i fenywod a'u babanod.

67. Fodd bynnag, roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi nodi bod lle sylweddol ar gyfer gwella'r gwasanaeth hanfodol hwn, ac mae'r ffaith bod y Swyddog Cyfrifyddu'n cydnabod bod angen gwneud llawer mwy o waith mewn nifer o feysydd (Ffigur 1) yn cadarnhau casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol.

Ffigur 1 – Y meysydd y mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi nodi sydd angen gwneud mwy o waith arnynt

- Blaenoriaethu gwasanaethau mamolaeth
- Diffinio a chasglu data cenedlaethol
- Diffinio costau ar gyfer gweithgareddau penodol a neilltuo costau yn gywir
- Safoni costau ledled Cymru
- Monitro lefelau offer
- Gwasanaethau newyddanedig
- Diffinio'r amser a dreulir ar obstetreg a gynaecoleg
- Cael atborth gan ddefnyddwyr
- Cyfraddau toriadau Cesaraidd
- Nifer y mamau sy'n bwydo ar y fron
- Trin cleifion gydag urddas a pharch
- Hyfforddi staff

68. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi rhoi sicrwydd i ni bod gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod angen gwneud gwaith mewn sawl maes i wella'r gwasanaethau. Ni fydd gwneud y gwelliannau hyn yn syml a bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adnoddau addas yn cael eu neilltuo i gynorthwyo cynnydd amserol a chynaliadwy.

69. Yng ngoleuni'r dystiolaeth rydym wedi'i hystyried, o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni gan y Swyddog Cyfrifyddu, rydym wedi cytuno ar yr argymhellion a ganlyn:

Argymhelliad 1: Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi manylion pellach i ni ynghylch sut y mae'n bwriadu rhoi argymhellion adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar waith, neu sut y mae eisoes wedi'u rhoi ar waith, a hynny ar unwaith.

Argymhelliad 2: Yn unol ag argymhelliad cyntaf yr Archwilydd Cyffredinol, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi strategaeth glir ar gyfer darparu gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru erbyn diwedd 2010. Dylai'r strategaeth hon gynnwys y manylion a ganlyn:

- **Sut y bydd Llywodraeth Cymru'n cwblhau'r gwelliannau a amlinellwyd i ni gan y Swyddog Cyfrifyddu**
- **Y targedau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u pennu a sut y mae'r rhain yn alinio ag ansawdd a chanlyniadau**
- **Sut y bydd Llywodraeth Cymru'n monitro perfformiad**

Argymhelliad 3: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, fel gofyniad sylfaenol, yn sicrhau bod yr offer a nodir yn y rhestr safonol y cyfeiriodd y Prif Swyddog Nyrsio ati ar gael ym mhob ward sydd angen yr offer o fewn y 12 mis nesaf.

Argymhelliad 4: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi copi o'r fframwaith newyddenedigol i ni cyn gynted â phosibl.

Argymhelliad 5: Rydym yn argymell bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhoi cyflwyniad ysgrifenedig mwy sylweddol i ni sy'n egluro'r rhesymau y tu ôl i'r data ar faint o bobl sy'n mynychu dosbarthiadau cynenedigol cyn gynted â phosibl.

Argymhelliad 6: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso ei dull newydd o ymdrin â gofal ôl-enedigol i weld a yw'n gwella profiadau defnyddwyr y gwasanaeth, ac a yw cynnydd yn nifer y staff wedi arwain at gynnydd mewn cyfraddau bwydo ar y fron.

Argymhelliad 7: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod lefelau hyfforddi bydwragedd, clinigwyr a staff meddygol eraill yn cael eu cynnal a bod systemau yn cael eu sefydlu i osgoi diffyg staff yn y dyfodol.

Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – trawsgrifiadau o'r cyfarfodydd

2 Gorffennaf 2009

Jeremy Colman	Archwilydd Cyffredinol Cymru
Gillian Body	Swyddfa Archwilio Cymru

19 Tachwedd 2009

Paul Williams	Pennaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru
Simon Dean	Cyfarwyddwr Cyfeiriad a Chynllunio Strategol, Llywodraeth Cymru
Rosemary Kennedy	Prif Swyddog Nyrsio

Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn Public Accounts Committee Inquiries

Enw / Sefydliad	*Dogfen*	*Cyfeirnod*
Swyddfa Archwilio Cymru	*Gwasanaethau Mamolaeth*, 19 Mehefin 2009	PAC(3) IMS1
Llywodraeth Cynulliad Cymru	Datganiad i'r wasg: *Derbyn cyngor arbenigwyr ar wella gofal i fabanod newydd eu geni*, 8 Rhagfyr 2009	PAC(3) IMS2